# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llwyncrwn

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llwyncrwn yn ysgol feithringar a chynhwysol lle mae staff a disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau arbenigol yn ymateb yn dda i ddiwallu anghenion unigol a chynnwys pob un o'r disgyblion ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr tosturiol ac ymroddgar yn creu amgylchedd dysgu cefnogol. Mae'r ymrwymiad hwn i ofal a lles yn helpu pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd da. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion, ac maent yn meithrin perthnasoedd cadarn â phob un o'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Maent yn disgrifio'u dysgu yn frwdfrydig ac mae eu hagweddau at ddysgu yn eithriadol o dda.

Mae ymagwedd yr ysgol at gynhwysiant yn gryfder. Mae staff yn nhîm lles yr ysgol yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd ac yn darparu cymorth i ddisgyblion ymgysylltu â holl brofiadau'r cwricwlwm a gynigir, gan liniaru yn erbyn effaith unrhyw rwystrau rhag dysgu. Mae disgyblion yn nosbarthiadau arbenigol yr ysgol yn elwa ar gwricwlwm sy'n gyfoethog o ran iaith ac yn integreiddio'n briodol i fywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr a staff yn datblygu cwricwlwm pwrpasol. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dysgu'r disgyblion, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac yn trosglwyddo'r medrau hyn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn dda. Fodd bynnag, mae llawer o athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Mae staff wedi creu amgylchedd dysgu difyr ac ysgogol. Mae llawer o ystafelloedd dosbarth yn darparu adnoddau defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion â'u dysgu. Ni chaiff ardaloedd awyr agored eu defnyddio cystal i sicrhau bod disgyblion iau yn cael cyfleoedd i archwilio dysgu mewn amgylchedd awyr agored.

Mae'r ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau monitro, ond nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon gofalus ar effaith yr addysgu ar ddysgu yn eu gwerthusiad o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Maent yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon ac yn gwerthuso effaith cyllid grant yn effeithiol.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Mireinio prosesau monitro a gwerthuso i ganolbwyntio’n fanwl ar effaith yr addysgu ar ddysgu

A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i bob un o’r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr creadigol, chwilfrydig, ac annibynnol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025